Fy mywyd gyda GISDA

Fy enw i yw Stephanie Fretwell, rwy'n 17 flwydd oed, ac mae GISDA wedi bod yn rhan o'm bywyd am bron dwy flynedd. Des i ar draws GISDA pan gododd rhyw fater o fewn y teulu, ac roedd angen i fy mam symud i ffwrdd. Roeddwn wedi symud o gwmpas yn aml fel plentyn ac roeddwn yn teimlo fy mod wedi dod o hyd i rywle yr oeddwn yn perthyn iddo o'r diwedd. Ar yr adeg yma roeddwn wedi setlo yn yr ysgol ac ar ganol gwneud TGAU. Roedd yn benderfyniad anodd ond roedd fy mam a minnau'n teimlo mai'r peth gorau oedd i mi aros gyda ffrindiau a gorffen fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol. Wnaeth pethau ddim gweithio, felly es i at GISDA a gwnaethon nhw gynnig help a lle i aros dros dro yn yr hostel. Gwnes i ymdrech i setlo yno, a'i chael yn anodd ar adegau, ond gwnaeth GISDA, fy nheulu a'm ffrindiau fy helpu. Gyda chymorth GISDA, fy nghariad Osian, a'm teulu, arhosais yn yr ysgol a llwyddo ym mhob un o'r arholiadau TGAU. Llwyddais i fynd i'r prom hefyd. Rwyf wedi symud ymlaen i fflatiau Fron Fawr ar ôl dangos fy mod yn gallu gofalu amdanaf fy hun. Rwyf yn y coleg ym Mangor rwan yn dilyn cwrs Celfyddyd a Dylunio, ac yn gobeithio bod yn athrawes. Rwy'n disgwyl am fflat i fi fy hun ac yn dysgu pethau newydd amdanaf fy hun ac am fywyd. Mae gen i le mawr i ddiolch i GISDA am yr holl gymorth y maent wedi'i roi ac yn dal i'w roi. Bydd yn anodd symud ymlaen o GISDA ond rwy'n ffyddiog y gallaf wneud hynny rwan ar ôl dysgu'r sgiliau newydd sydd gen i.